Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cylchlythyr technegol

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Rhifyn 19 Mai 2009

Cynnwys

Hwb i'r grant Phytophthora
Fforwm trafod
Newyddion diweddaraf y staff
Arian wedi'i neilltuo ar gyfer CGG
Canllawiau CGG newydd
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig: taith CGG
Gwelliannau GLOS
Newyddion diweddaraf am Gyfeirnod y Cwsmer
Cynghorion

Y rhifynnau nesaf:

Rhifyn 20 Gorffennaf 2009

Mae'r rhifyn cyfredol a rhifynnau blaenorol ar gael ar wefan CCC:
www.forestry.gov.uk/wales

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

NEWYDDION DIWEDDARAF

Achosodd datganiad i'r wasg ym mis Mai gryn benbleth! Nid yw CGG yn un o'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol a fydd yn cael eu cau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae CGG ar agor yn ôl yr arfer o hyd ac felly daliwch ati i baratoi a chyflwyno eich ceisiadau.

£100,000 ychwanegol er mwyn brwydro yn erbyn Phytophthora

Mae CCC yn darparu £100,000 ychwanegol o grant drwy CGG er mwyn helpu i reoli lledaeniad Phytophthora ramorum a Phytophthora kernoviae mewn rhai coetiroedd yng Nghymru.

Mae'r arian yn cynnig cymorth wedi'i dargedu mewn dau barth: o amgylch ardaloedd trefol yn ne Cymru a Dyffryn Conwy yng ngogledd orllewin Cymru.

Bydd y gyfradd grant fwy, sef 90% o'r gost safonol, ar gael drwy ein cynlluniau CGG newydd a phresennol, er mwyn torri'r deunydd nad yw'n heintiedig yn ystod 2009/10.

Dylid gwneud cais drwy CGG yn y ffordd arferol, gan ddefnyddio Cynllunydd Rheoli. Mae'r arian ychwanegol yn gyfyngedig a thrafodir pob cais ar sail 'y cyntaf i'r felin'. Mae'n rhaid derbyn ceisiadau erbyn 31 Awst 2009 ac mae'n rhaid i'r gwaith gael ei gwblhau a'i hawlio erbyn 28 Chwefror 2010. Mae'r manylion ar y dudalen grantiau CGG yn

http://www.forestry.gov.uk/website/forestry.nsf/byunique/infd-6j2hal

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Fforwm trafod Cynllunwyr Rheoli ar y we

Ceir y fforwm trafod allanol hwn yn http://bww.freeforums.org/ Mae angen i ddefnyddwyr gofrestru cyn y gallant bostio negeseuon neu ymatebion. Dylai defnyddwyr ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost ag a ddangosir ar restr CCC o gynllunwyr rheoli / aseswyr arbenigol er mwyn cynorthwyo dilysu. Unwaith y caiff y cofrestru ei gymeradwyo byddwch yn cael eich hysbysu drwy e-bost. Mae hyn er mwyn rhwystro camddefnyddio'r safle.

Newyddion diweddaraf y staff

Mae'n bleser gennym groesawu Kevin Taylor i dîm Grantiau a Rheoliadau CCC fel Rheolwr Busnes a Phrosiectau ar secondiad tair blynedd o Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru (RPD). Yn y gorffennol roedd Kevin yn rheoli tîm o Reolwyr Prosesau a oedd yn rhedeg Cynlluniau Datblygu Gwledig amrywiol, gan gynnwys y Cynllun Coetir Ffermydd, Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd a'r Premiwm Tir wedi'i Wella. Bu'n gweithio hefyd i CCGC ar y cynlluniau Tir Cymen a Thir Gofal.

Arian wedi'i neilltuo ar gyfer CGG

Mae'r crynodeb isod yn dangos lefel yr arian a neilltuwyd ar gyfer y 3 blynedd nesaf ar ddiwedd mis Ebrill 2009.

Blwyddyn	Cyllideb	Neilltuwyd	Neilltuwyd	Talwyd	Talwyd
09/10	£3,060,000	£3,603,490	118%	£100,123	3%
10/11	£3,240,000	£1,585,074	49%		
11/12	£3,280,000	£1,114,956	34.00%		

Rydym yn awyddus i sicrhau bod yr arian a neilltuwyd yn cael ei wario ac mae arnom angen i'r sector weithio gyda ni er mwyn gwneud hyn. Rhowch wybod i ni cyn gynted ag y bo modd am unrhyw weithrediad cymeradwy na fydd yn digwydd yn ystod 09/10 gan ddefnyddio'r ffurflen (FM02) sydd ar gael ar wefan CGG. Wrth roi'r wybodaeth hon i ni byddwn yn gallu rheoli cyllideb y grant ac ailddyrannu arian i weithgareddau a fydd yn cael eu cwblhau yn 09/10.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o achosion CGG lle mae gwaith eisoes wedi cael ei gwblhau, neu a fydd yn cael ei gwblhau, yn 09/10. Rydym yn cadw rhestr wrth gefn o achosion a all dderbyn unrhyw arian a ryddheir. Bydd y rhestr wrth gefn hon yn cynnwys achosion lle mae gwaith wedi cael ei gwblhau neu a fydd yn sicr yn cael ei gwblhau yn 09/10. At y diben hwn rydym wedi datblygu ffurflen sydd ar gael i'w lawrlwytho o'n llyfrgell gyfeirio er mwyn rhoi gwybod i ni am unrhyw waith sydd naill ai wedi cael ei gwblhau neu a fydd yn cael ei gwblhau yn 09/10. A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen hon a'i hanfon drwy e-bost at bww.ts@forestry.gsi.gov.uk cyn gynted ag y bo modd

Wrth reoli'r arian grant yn synhwyrol byddwn yn gwybod a fydd y gwaith yn gallu cael ei gynnal gyda'r dyraniad presennol neu a fydd angen edrych am ragor o arian. Nid ydym am gael unrhyw arian grant sydd heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn felly rhowch wybod am unrhyw waith na fydd yn mynd rhagddo cyn gynted ag y bo modd. Nid oes cyfyngiad ar y nifer o ddiwygiadau y gallwch eu cyflwyno er mwyn newid blynyddoedd y cais.

Arolwg Cwsmeriaid a chanllawiau CGG newydd

Diolch yn fawr i'r sawl a ymatebodd i'r arolwg Cwsmeriaid, cawsom nifer o ymatebion a chaiff crynodeb ei ddarparu mewn cylchlythyr yn hwyrach eleni.

Mae nifer o ddogfennau newydd a diwygiedig wedi cael eu drafftio a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2009. Bydd pob Cynllunydd Rheoli yn cael eu hysbysu unwaith y maent yn ein llyfrgell gyfeirio CGG, sydd ar gael yn www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6upk3s

Mae **'Rheolau Busnes CGG'** y rheolau yn ymwneud â'r Grant Gwella Coetiroedd yn awr wedi cael eu cyhoeddi yn llyfrgell gyfeirio CGG. Caiff ei ddiweddaru'n hwyrach yn y flwyddyn er mwyn cynnwys rheolau plannu ac ailstocio newydd.

Bydd '**CGG a Llywodraeth Cynulliad Cymru**' yn rhoi manylion sut i gael CRN a sut i gofrestru manylion cwsmer a thir gyda LICC.

Bydd '**Sut i ddefnyddio'r Cyfrifiannell cost WIG**' yn cael ei ddiweddaru a'i gyflwyno ar ddechrau mis Mehefin. Hyd nes y caiff y ddogfen hon ei rhyddhau diystyrwch yr hen ddogfen a defnyddiwch y ddogfen Rheolau Busnes.

Bydd '**Sut i reoli eich contract CGG**' yn cael ei ddiweddaru a'i gyflwyno ar ddechrau mis Mehefin.

Y gweinidog yn mynd a'r daith o amgylch y cynlluniau CGG

Ymwelodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig Elin Jones â Phowys yn ystod mis Mai gan gwrdd â ffermwyr a pherchnogion coetiroedd bach a oedd yn elwa o'r cynllun grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) a ddatblygwyd yn arbennig ar gyfer coetiroedd Cymru.

Roedd taith y Gweinidog yn rhagflaenu'r gwaith o gyflwyno proses newydd, symlach a luniwyd ar gyfer coetiroedd fferm bach er mwyn eu helpu i fodloni amcanion strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer coetiroedd a choed, sef Coetiroedd i Gymru. Lansiwyd yr ymagwedd newydd hon a elwir yn 'Coedwigoedd Bychain CGG' ar 21 Mai.

Nod y strategaeth yw annog cynnydd yn nifer y coetiroedd cynhenid a chymysg a dod â mwy o goetiroedd cynhenid i reolaeth weithredol, ac yr oedd y prosiectau ym Mhowys a ariannwyd gan CGG yn creu cyfle i'r Gweinidog edrych ar dair enghraifft o sut yr oedd y gwaith yn cael ei gyflawni drwy arferion da.

Roedd ymweliad cyntaf y Gweinidog â Choed Cwm ger Dolfor, lle dangosodd y perchnogion Dr Wolfgang Schaefer a Kingsley George ddau hectar o goed pren caled i'r Gweinidog a blannwyd ar gyfer pren 15 mlynedd yn ôl. Gan i'r coed ddatblygu'n llwyddiannus, aethant ati i brynu coedwig hynafol 3 hectar a reolir yn bennaf i wella bioamrywiaeth. Cynhyrchodd y cynllunydd Rheoli Evelyn Over gynllun â gwaith a gynorthwyir gan arian sy'n cynnwys codi ffensys, creu trac mynediad ar gyfer gweithrediadau rheoli, rheoli'r gwiwerod llwyd er mwyn lleihau niwed i goed llydanddail, rheoli rhedyn a gwneud gwaith tocio uchel ar y pren coed er mwyn cynyddu gwerth y coed yn y dyfodol. Mae'r perchnogion eisoes yn gweld ffrwyth eu llafur yn y cynnydd mawr mewn coed brodorol a fflora hunanhadu ar y tir ar ôl cadw stoc o'r ardal a bil gwres llawer yn llai. 'Erbyn hyn rydym yn hollol hunangynhaliol mewn pren ar gyfer ein system wresogi gan ein bod yn rheoli ein coetiroedd mewn modd cynaliadwy' dywedodd Dr Schaefer wrth y Gweinidog.

Yna, symudodd y daith i Fferm Glanmiheli ger Ceri, Y Drenewydd, lle mae Geraint ac Anabel Powell wedi adnewyddu dau gysgod y coed ar eu fferm 200 hectar, at resymau cadwraeth ac er mwyn helpu i ddarparu cysgod i'w 500 o ŵyn miwl Cymreig a mamogiaid Beulah a'u 80 o wartheg eidion sugno. Cafodd y coed eu cwympo a'u hailblannu o dan CGG, gyda chymysgedd o goed conwydd a choed llydanddail, ar ôl iddynt godi ffens o amgylch y safle er mwyn cadw'r stoc o'r ardal. Mae'r teulu Powell yn awyddus i roi rhywbeth yn ôl i'r tir sy'n eu cynnal ac ailblannu a gwneud gwaith teneuo aneconomaidd ar y coetiroedd a blannwyd ym 1998 yw'r gwaith nesaf i gael ei gynorthwyo gan grant y cynllun CGG.

Ymweliad olaf y diwrnod oedd â Glanhafren, coetir 20 hectar a brynodd Mr a Mrs Morris Rogers o'r Comisiwn Coedwigaeth ym 1998. Maent yn dod yn wreiddiol o Sir Drefaldwyn, a gyda'u meibion mae ganddynt fusnes peirianwaith tractorau llwyddiannus. Mae gan Mr Rogers atgofion melys o Lanhafren ac mae'n cofio'r coetir yn cael ei blannu a dangosodd safle hen feithrinfa goed y Comisiwn Coedwigaeth i'r Gweinidog lle'r oedd coed yn cael eu tyfu. Mae croeso hefyd i bobl leol ddod i'r coetiroedd er mwyn rhannu mwynhad cerdded drwy'r man tawel hwn. Bydd y teulu'n dechrau tynnu peth o'r pren aeddfed ac o ansawdd uchel o'r coetir eleni. Bydd y cynllun grantiau yn helpu i dalu costau ailblannu'r ardaloedd lle cwympwyd y coed a chynnal traciau. Caiff cymaint o bren ag y bo modd ei ddefnyddio gan fab Mr Rogers, Hywel, ar gyfer codi ffensys ar ei fferm 41 hectar. Bydd coed tân hefyd yn adnodd defnyddiol i'r teulu.

Dywedodd Elin Jones:"Yr oeddem yn hynod o falch o weld sut yr oedd cynllun grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru yn helpu ffermwyr a pherchenogion coetiroedd bach i reoli'r coed ar eu tir.
"Wrth wneud hynny maent nid yn unig yn cyflenwi'r manteision amgylcheddol y mae strategaeth Coetiroedd i Gymru yn eu ceisio, ond maent hefyd yn rhoi manteision gwerthfawr iawn i'r gymdeithas ynghyd â chreu cyfleoedd economaidd pwysig i ffermwyr yn ystod y cyfnod ansicr hwn."

o'r chwith i'r dde: Swyddog Coetiroedd Ken Smith, y Gweinidog dros Faterion Gwledig Elin Jones, perchennog coetir Dr Wolfgang Schaefer

Gwelliannau i GLOS

Mae rhagor o welliannau wedi'u cynllunio ar gyfer ein gwasanaeth ar-lein, glos tuag at ddiwedd mis Gorffennaf. Ymhlith y rhain mae:

- diweddariad er mwyn sicrhau bod manylion y CRN a'r talai yn cael eu rhoi cyn cyflwyno cynllun Rheoli
- y cymhwyster i lawrlawytho o is-adrannau a gweithdrefnau GLOS mewn fformat sy'n addas i'w ddefnyddio gyda EXCEL
- newid i fformat y contract

Mae diweddariad pellach wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i fapiau contractau ac adroddiad i amlinellu Nodweddion, Gweithdrefnau neu Is-adrannau digyswllt er mwyn helpu yn ystod y broses cysylltu gofodol. Mae'r cyfleuster er mwyn caniatáu lanlwytho manylion gweithdrefnau i GLOS o gyfrifiannell cost WIG wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd.

Cynghorion ar gyfer defnyddio GLOS

Manylion y talai

Wrth roi eich Cyfeirnod Cwsmer (CRN) yn eich achos CGG, mae'n rhaid i chi ddewis "prif ymgeisydd" o'r gwymplen. Mae'n rhaid mai'r unigolyn a nodwyd fel y "Prif Gyswllt" i LICC wrth wneud cais am CRN yw'r "prif ymgeisydd" ar gyfer achos. Os yw'r prif ymgeisydd yn cael ei adael yn wag, bydd GLOS yn cynhyrchu gwall wrth gymeradwyo a allai arwain at ohirio cymeradwyo'r achos.

Dilysu coetir cynhenid

Mae rheolau CGG yn caniatáu hyd at 5% o rywogaethau nad ydynt yn gynhenid fel elfen o **ardal wedi'i phlannu**, ond ni fydd GLOS yn caniatáu i rywogaethau o lai na 5% o'r **ardal gyfan** gael eu cyflwyno. Wrth gyflwyno rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid i weithdrefn **plannu newydd neu ailstocio coetir cynhenid** lle mae tir agored dylech:

Roi manylion y rhywogaethau nad ydynt yn gynhenid yn y disgrifiad fel elfen lai e.e. <5% o'r ardal.

NEU
Roi manylion y tir agored (os yw'n llai na 15% o'r ardal gyfan) yn y disgrifiad a chofnodi'r rhywogaeth nad yw'n gynhenid."

Newyddion diweddaraf am Gyfeirnod y Cwsmer

Yn ddiweddar buom mewn trafodaethau cynhyrchiol iawn gyda'r Is-adran Taliadau Gwledig (CDG) i edrych ar rai o'r materion a godwyd gan y Cynllunwyr Rheoli. Yn ogystal, rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod staff swyddfa flaen LlCC yn gyfarwydd â'r canllawiau newydd

- Dylai Cynllunwyr Rheoli roi gwybod i CCC cyn gynted ag y maent yn gwybod Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) ar gyfer ymgeisydd fel bod y CCC yn gallu sicrhau bod RPD wedi cofrestru'r ymgeisydd fel cwsmer coedwigaeth. Mae angen i'r ymgeisydd gael ei gofrestru fel cwsmer coedwigaeth fel y gellir trosglwyddo eu manylion i GLOS fel rhan o'r broses ddilysu. Dylid anfon Cyfeirnod y Cwsmer drwy e-bost at bww.ts@forestry.gsi.gov.uk gyda 'CRN newydd' fel y pennawd pwnc.

- Mae RPD wedi darparu manylion cyswllt y gall Cynllunwyr Rheoli eu defnyddio i wirio a yw ymgeiswyr wedi'u cofrestru'n llawn gyda CRN a manylion talai. Er na all RPD ddarparu unrhyw fanylion banc, os yw Cynllunwyr yn anfon y rhain drwy e-bost at RPD byddant yn ymateb i nodi a yw'r rhain yn cyfateb i'r manylion sydd ganddynt.

Rydym yn argymell eich bod yn holi'r cwestiynau canlynol:-

- A yw'r rhain yr un fath â'r manylion banc sydd gan RPD yn erbyn CRN cyf ****. Yna rhestrwch y cod didoli a rhif y cyfrif y mae'r ymgeisydd wedi'u rhoi i chi.

- A yw CRN Cyf**** wedi'i gofrestru fel cwsmer coedwigaeth achos eu bod wedi bwriadu gwneud cais am CGG?

- A oes rheswm pam na ddylai achos CGG sy'n defnyddio'r CRN a'r manylion talai hyn barhau?

Y manylion cyswllt yw:-

Gillian Langdon
Blaen swyddfa Caerfyrddin
gillian.langdon@wales.gsi.gov.uk
01267 225361

Maria Francis
Blaen swyddfa Llandrindod
francismc@wales.gsi.gov.uk
01597 828265

Grace Williams
Blaen swyddfa Caernarfon
gracew@wales.gsi.gov.uk
01286 662175

- Mae LlCC wedi rhoi cyfarwyddiadau i'w staff yn y swyddfa flaen i dderbyn ceisiadau ar gyfer Cyfeirnodau Cwsmeriaid/Rhifau Daliad (Ffurflen Cof 10) ar ran cwsmeriaid, oddi wrth asiantwyr a Chynllunwyr Rheoli. Bellach, gall yr asiantwyr/Cynllunwyr Rheoli lenwi a llofnodi'r ffurflen gais ar ran y cwsmer. Rhaid i'r Enw Masnachu ddangos manylion y cwsmer, nid manylion yr asiant.

- Bydd dal angen i'r cwsmer lofnodi'r Ffurflen Manylion Cwsmer (FfMC). Dyma lle y bydd yn awdurdodi'r asiant/Cynllunydd Rheoli i weithredu ar ei ran. Pan fydd y FfMC yn cael ei gyflwyno bydd angen i wirio mai'r asiant/cynllunydd rheoli yw'r unigolyn awdurdodedig sydd â'r hawl i gwblhau'r ffurflenni ar ran y cwsmer priodol.

Caiff dogfen newydd am y broses gofrestru CRN a thir llawn ei chyhoeddi maes o law – gweler 'Canllawiau BWW newydd' isod.

Gwybodaeth sensitif mewn Ymatebion gan Ffynonellau Allanol

Caiff Cynllunwyr Rheoli eu hatgoffa y gall rhai rhannau o adroddiadau a ddarperir gan ymatebwyr o ffynonellau allanol, yn enwedig y Canolfannau Cofnodion Lleol, gynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Ymhob achos caiff y mannau sy'n cynnwys y math hwn o wybodaeth eu marcio'n glir ac mae'n rhaid talu sylw priodol i'r lefel o sensitifrwydd neu gyfrinachedd. O ganlyniad i dderbyn y wybodaeth hon mae CCC wedi cytuno na fydd unrhyw un sydd â mynediad at y wybodaeth hon yn ei throsglwyddo i drydydd parti heb ganiatâd y Swyddfa Cofnodion Lleol.

Triniaeth staff CCC

Rydym wedi sylwi, yn achlysurol, fod Cynllunwyr Rheoli wedi bod yn rhwystredig gydag oedi o ran cymeradwyo CGG. Mae'r tîm CGG wedi derbyn negeseuon e-bost o natur wawdlyd neu ymosodol. Gallwn eich sicrhau bod staff CCC wedi ymrwymo i brosesu achosion CGG cyn gynted â phosibl wrth sicrhau eu bod yn diwallu anghenion RDP. Er ein bod yn gallu gwerthfawrogi y gallai Cynllunwyr fod dan bwysau gan berchnogion, gall y negeseuon e-bost hyn danseilio morâl staff sy'n gwneud eu gorau i brosesu eu baich achosion.

A oes modd i chi beidio ag anfon y math hwn o e-bost. Os oes gennych bryderon ynghylch CGG dylid bwydo'r rhain drwy ein cynrychiolydd ar y Grŵp Rhanddeiliaid. Ceir gwybodaeth am waith y grŵp Rhanddeiliaid yn http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-7M2DY2

Manylion cysylltu...

Ymholiadau CGG cyffredinol: Ffoniwch 0845 604 0845 neu ewch i: www.forestry.gov.uk/cymru
Ymholiadau technegol: E-bostiwch bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
Gwasanaeth GLOS: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
ac amawgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bostiwch alison.evans@forestry.gsi.gov.uk